



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## **Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

**11 Hydref 2019**

**9:00 yb to 12:30 yp**

**Optic, Llanelwy**

Yn bresennol: Teresa Owen (Cadeirydd), Bethan E Jones, Charlotte Walton, Cyng. Christine Jones, Cyng. Joan Lowe (JL), Cyng. Louise Emery, Cyng. Dafydd Meurig, Cyng. Bobby Feeley, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Jenny Williams, Kevin Roberts, Lesley Singleton, Lynda Colwell, Peter Williams, Rob Smith, Catherine E Jones, John Gladston, Dave Worrall, Jennie Lewis (Jle), Sacha Hackett, Shan Lloyd Williams, Maria Bell (Cofnodwr), Fon Roberts (yn cynrychioli Alwyn Jones / Ynys Môn), Susie Lunt (yn cynrychioli Neil Ayling / Sir y Fflint), Sherry Weedall, AVOW (yn cynrychioli Wendy Jones / Trydydd Sector), Aled Davies (yn cynrychioli Morwena Edwards), Sally Baxter (yn cynrychioli Mark Wilkinson)

Ymddiheuriadau: Bethan Jones Edwards, Cyng. Llinos Medi Huws, Alwyn Jones, Clare Budden, Wendy Jones, Marian Wyn Jones, Neil Ayling, Mark Wilkinson, Morwena Edwards, Chris Stockport, Mary Wimbury, Judith Greenhalgh, Nicola Stubbins

Hefyd yn bresennol: Maria Bell, Rheolwr Busnes Rhanbarthol (ar gyfer eitem 6) Mark John-Williams, Cyd-gyfarwyddwr Flintshire DO-IT (ar gyfer eitem 9)

### **1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb.

Cyflwynodd pawb eu hunain a derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel y'u nodir uchod.

### **2 Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Medi fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Materion heb eu cwblhau:

- Diweddariad gan Fforwm MTJW ar ôl cyfarfod mis Rhagfyr/Ionawr

Materion yn codi:

- Dim

### **3 Cymru Iachach: Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu**

Rhoddodd Susie Lunt a Kathryn Whitfield ddiweddariad ar gyraeddiadau ac effaith y rhaglen hyd yma.

Cydnabuwyd bod llawer o bapurau ond roeddent yn credu y byddai'r Bwrdd Partneriaeth yn gwerthfawrogi'r manylion. Mae croeso i aelodau BPRhGC wahodd Kathryn Whitfield i unrhyw gyfarfodydd lleol i drafod y rhaglen ymhellach.

Mae'r Bwrdd Rhaglen a'r Dinasyddion (panel a grŵp cyfranogi) wedi cytuno ar y blaenoriaethau. Mae'r rhaglen wedi chwilio am arfer gorau ar draws y rhanbarth, Cymru a thu hwnt ac yn rhannu hyn.

Bydd y ffocws heddiw ar waith i'r dyfodol. Mae gan y rhanddeiliaid gryn ddiddordeb yn y cyfle i gael £0.5m o gyllid ar gyfer peilota ymdriniaethau newydd. Mae proses ar gyfer cynigion wedi'i datblygu a bydd yn cael ei chyhoeddi yn yr wythnosau i ddod.

Mae gwaith ar y gweill yn Ynys Môn i edrych ar gyllideb gyfun (cyllid iechyd a gofal cymdeithasol); caiff y Bwrdd aroddiad ar yr hyn a ddysgwyd yn sgil hyn yn ddiweddarach.

Mae cryn waith ar y gweill i ddatblygu deunyddiau ar y cyd â rhanddeiliaid e.e. deunyddiau hyfforddi ar werthoedd ac egwyddorion. Mae bwriad i gyd-gynhyrchu opsiynau e-ddysgu a ffilmiau newydd; mae'r rhaglen yn ymgysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru a chyflogwyr ynghylch pa fath o hyfforddiant a dulliau dysgu sy'n angenrheidiol (gan adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar gael). Mae'r partneriaid wedi bod yn hynod o hael o ran rhannu eu deunyddiau eu hunain. Sefydlwyd Cymuned Ymarfer ar gyfer Cefnogaeth Weithredol.

Mae'r gwaith ar ddatblygu opsiynau llety yn symud yn ei flaen yn gyflym ac mae'r sefyllfa wedi newid ers pan ysgrifennwyd yr adroddiad sydd yn y pecyn. Mae'r ALI yn edrych ar sefydlu trefniadau is-ranbarthol sy'n rhoi manylion am sut i reoli'r mater o 'breswyliaeth gyffredin' lle caiff llety gwell a gwasanaethau cefnogi ar gyfer pobl o wahanol wledydd eu comisiynu ar sail integredig. Mae 55 unigolyn y mae opsiynau newydd yn cael eu datblygu ar eu cyfer.

Mae gwaith sylweddol yn digwydd i sicrhau bod gwybodaeth sy'n hyrwyddo iechyd ar gael ac i ofalu bod ymarferwyr ym maes iechyd yn ymwybodol o anghenion cyfathrebu a gwybodaeth pobl ag anawsterau dysgu e.e. arweiniad ar gyfer rhieni, teuluoedd a gweithwyr cefnogi ar sut i leddfu pryderon ynghylch mynd at y deintydd.

IPC Prifysgol Oxford Brookes yw'r partneriaid sy'n gwerthuso'r rhaglen.

Croesawodd JLe ymgysylltiad yn y rhaglen gan ddweud bod gwybodaeth hawdd ei darllen ragorol ar gael, ac yn byddai'n falch iawn pe bai modd dosbarthu'r wybodaeth honno.

Mae Jennie'n cyfarfod rhieni a theuluoedd sy'n croesawu'r ymgysylltiad o ran gwerthuso'r effaith y mae'r rhaglen yn ei gael ar fywydau pobl.

Gofynnodd RS ynghylch y targed ar gyfer mynediad at gyflogaeth ac a oes unrhyw beth ychwanegol y gallai BIPBC fod yn ei wneud i ddarparu cyfleoedd.

Cyfeiriodd SL at 'brosiect chwilio' Cyngor Sir y Fflint sy'n darparu interniaethau ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu er mwyn iddynt ennill sgiliau sy'n eu paratoi ar gyfer gwaith a lleoliadau. Mae'r cyfranogwyr yn rhoi cynnig ar amrywiaeth o swyddi gyda'r nod o ennill o leiaf 16 awr yr wythnos o brofiad gwaith yn sgil hynny.

Dywedodd SB bod tîm cydraddoldebau BIPBC yn gweithio ar hyn.

Dywedodd FfJ bod gan PBC brosiect tebyg ym Mlaenau Ffestiniog.

Nododd KW bod angen i ni i gyd chwalu'r myth nad yw pobl ag anableddau dysgu yn gallu gweithio llawer iawn o oriau oherwydd y rhwystr 'enillion therapiwtig'.

Dywedodd SLIW bod anghenion llety yn fater sy'n cael ei gynnwys ar raglenni cyfarfodydd Prif Swyddogion Gweithredol LCC.

Mae'r BPRhGC yn croesawu'r adroddiadau gan y rhaglen.

#### *Camau Gweithredu*

- KW i rannu'r adroddiad diweddaedig
- Adolygiad hanner ffordd i'w rhannu gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

## **4 Trawsnewid Digidol**

Cyflwynodd Bethan E Jones (BEJ) yr adroddiad. Mae gweithrediad y WCCIS yn ddibynnol ar seilwaith ac amgylchedd ehangach e.e. mynediad i rwydweithiau a chaledwedd (argraffwyr) er mwyn galluogi gweithio symudol a chydleoli. Rhaid i ni hefyd ddileu gwastraff e.e. pan fo gweithwyr angen 2 wahanol liniadur er mwyn cael mynediad i systemau GIG ac Awdurdod Lleol.

Mae Penaethiaid TGCh a swyddogion arweiniol yng Ngogledd Cymru yn rhan o'r datblygiad.

Bydd y cynnig y dylid sefydlu grŵp cydlynu a fydd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio ar gael gwared ar rai o'r rhwystrau gweithredol.

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion strwythur llywodraethu amlinellol - Bwrdd Trawsnewid Digidol y Gwasanaethau Integredig. Mae angen atebion technolegol ond rhaid chwilio amdanynt o fewn paramedrau'r hyn sydd ei angen ar ddinasyddion a sut orau i ddarparu hynny. Rhaid hefyd sicrhau ein bod yn croesawu pethau newydd ar yr un pryd â gwneud y defnydd gorau o'r systemau sydd eisoes yn bodoli.

Nododd Teresa Owen (TO) bod yn rhaid sicrhau cydgysylltiad rhwng y strategaeth glinigol a'r un ddigidol.

Gofynnodd Cyng BF am i gynnydd o ran sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol gael ei amlygu, a bod y gwaith hwn yn hanfodol o ran gwneud i hyn weithio hyd yn oed yn well.

Gofynnodd EH a oes gan y partneriaid sy'n rhan o'r rhaglen eu strategaethau/cynlluniau trawsnewid digidol eu hunain.

Atebodd BEJ mai'r rhagdybiaeth yw mai dyma'r achos ond y cwestiwn ydi a yw'r rhain yn cadw i fyny gyda'r gofynion gweithredol.

Nododd TO ei bod yn bwysig ein bod yn gwneud hyn yn iawn er mwyn galluogi cynaliadwyedd y rhaglenni trawsnewid.

Cadarnhaodd y Cyng DM bod hwn yn ddarn pwysig o waith, yn enwedig o ran llywodraethu a data.

Holodd TO ynghylch yr amserlen ar gyfer symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Dywedodd BEJ bod ychydig dros 12 mis o gyllid ar gyfer y rhaglen trawsnewid, bod angen gwneud cynnydd yn gyflym a bod yn rhaid i BIPBC ac ALI roi blaenoriaeth i hyn tra bo'r adnoddau ar gael.

Awgrymodd DW hefyd y byddai o fantais edrych ar sut y gallai'r sector darparwyr gael mynediad i'r systemau hyn.

Nododd FfJ y bu argymhellion / gofynion bod y gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd a systemau'r ALI yn gweithio gyda'i gilydd.

Nododd SB ei bod yn bwysig sicrhau bod Timau Adnoddau Cymunedol yn ymwneud â phob grŵp – plant a phobl ifanc, pobl ag anghenion cefnogi lechyd Meddwl a phobl ag anableddau.

Cadarnhaodd BEJ mai'r hyn sy'n allweddol yw gwaith integredig ar gyfer pobl hŷn.

Dywedodd PW bod ei gefndir ef mewn TG a seilwaith TG; mae rhannu data bob amser yn her, ond gellir rhannu data'n ddiogel os oes protocolau a mesurau diogelwch effeithiol wedi'u sefydlu.

Gofynnodd TO am safbwyntiau BPRhGC ar yr argymhellion yn yr adroddiad: Roedd cytundeb cyffredinol ond gofynnodd Cyng BF bod y gair 'gweithredol' (bydd y BPRh yn cefnogi'n weithredol) yn cael ei newid i 'ar frys'.

Gofynnodd y CyngJL am linell amser ar gyfer adrodd yn ôl i BPRhGC.

Cytunodd BEJ y byddai'n adrodd yn ôl ar y rhaglen a'i chynnydd ymhen 2 – 3 mis.

#### *Camau Gweithredu*

- Adroddiad pellach i'r BPRhGC ymhen 3 mis.

## **5 Adroddiad 'O'r Ysbyty i Gartref Iachach'**

Croesawodd TO yr adroddiad a'i fformat a gwahoddodd Lynda Colwell i roi trosolwg o'r gwaith a'r adroddiad.

Dywedodd LC bod y gwaith ar y camau cynharaf ar hyn o bryd ond ei fod yn gwneud cynnydd da o fewn BIPBC ac ar draws Cymru.

Caiff y rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal heb ei drefnu ei darparu gan Gofal a Thrwsio Cymru mewn 7 o safleoedd ar draws Cymru.

Dywedodd Stephen Harry (cyfarwyddwr y rhaglen genedlaethol) bod y peilot wedi bod yn galonogol a diolchodd i Ofal a Thrwsio ar draws Cymru am fod mor gyflym yn sefydlu eu hunain mewn ysbytai ar draws y wlad. Bydd y prosiect yn cael ei ymestyn a'i werthuso, a dyna arweinodd at yr adroddiad a roddwyd gerbron heddiw.

Cytunwyd ar ddangosyddion / mesuryddion y gellir eu defnyddio i benderfynu ar ddyfodol y cyllid.

Mae'r peilot wedi'i ymestyn eto hyd fis Mawrth 2020. Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu rhwng y Gweinidogion Tai ac Iechyd er mwyn adrodd ar gynnydd y gwasanaeth a'i wreiddio fel dull trawsnewidiol o fynd i'r afael â gofal heb ei drefnu ac oedi o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Daw'r cyllid gan GIG (refeniw) a Tai (Cyfalaf – addasiadau, trwsio a chynnal a chadw). Mae'r rhaglen wedi'i halinio'n dda â Chymru Iachach gan alluogi partneriaethau hirdymor, cynaliadwy.

Y nod yw cefnogi pobl i gadw'n iach ac i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r dyhead i sicrhau bod tai pobl hŷn yn ddiogel, yn gynnes ac yn gyfforddus.

Nododd LC mai pwynt gwerthu unigryw Gofal a Thrwsio yw brics a mortar y cartref ar yr un pryd a chefnogi'r unigolyn yn y cartref.

Ar draws ardal BIPBC cafwyd 400 o atgyfeiriadau am gyngor a arweiniodd at nifer sylweddol o wiriadau cartrefi iach, gwaith trwsio mewn 168 gartrefi a 175 gwiriad budd-dal lles. Yn aml iawn mae modd cwblhau addasadau ar yr un diwrnod h.y. gwaith trwsio hanfodol, gosod sêffs allwedd, symud gwllâu i lawr y grisiau.

Mae'r rhaglen hon yn cefnogi'r agenda 'cwympiadau' h.y. ar gyfer pobl sy'n ffit i'w rhyddhau o'r ysbyty ar ôl disgyn, mae'r gwasanaeth yn adolygu'r amgylchedd yn y cartref er mwyn gweld beth achosodd y ddamwaith ac a oes modd gwneud unrhyw newidiadau er mwyn osgoi rhagor o gwypmipiadau yn y dyfodol.

Disgrifiodd LC astudiaeth achos diweddar yn ymwneud â dynes gydag esgryn wedi torri a welwyd cyn ei rhyddhau o'r ysbyty. Roedd wedi disgyn oddi ar ei sgwter symuedd wrth ei ddefnyddio ar lwybr nad oedd yn ddigon llydan ac o'r herwydd roedd y sgwter wedi troi drosodd ar ymyl y llwybr a hithau wedi disgyn. Gofynnodd y gwasanaethau 'sut ddigwyddodd hyn' a chafodd y llwybr ei wella cyn i'r ddynes fynd adref.

Disgrifiodd LC hefyd sefyllfaoedd lle mae pobl yn cymryd y byddant gallu ymdopi yn eu cartrefi heb fod yn ymwybodol bob amser o'r risgiau a'r rhwystrau. Mae hyn yn peri mwy o risg i'r unigolion a'u gofalu; gall y gwasanaeth sicrhau ymdriniaeth ataliol effeithiol, gan ychwanegu at wasanaethau eraill sydd ar gael (e.e. gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Cymru, y Groes Goch Brydeinig ac ati.) Cyswllt ac arwyddbosio gan Trwsio a Gofal ar draws y gwasanaethau cymunedol.

Mae'r gwasanaeth yn cyfuno ymdriniaeth unigolyn ganolog â sgiliau technegol.

Nododd y CyngLE bod cohort cynyddol o unigolion sydd yn eithaf gwael sydd angen 6 – 8 ymweliad drwy gydol y dydd, ddydd a nos. Dywedodd yr ymwelodd â chartref nyrsio yn ddiweddar a bod yr agenda i gefnogi mwy a mwy o bobl yn eu cartrefi yn cael effaith andwyol arno.

Dywedodd LC eu bod yn cael sgysiau sensitif gydag unigolion nad yw aros yn eu cartrefi o bosibl yn ddiogel nac yn ymarferol iddynt ac y dylent o bosibl ystyried opsiynau cartrefi gofal â gofal ychwanegol.

Gofynnodd JW ynghylch cynaladwyedd y rhaglen a sut y gellir prif-ffrydio hyn gyda'r arian sydd eisoes yn y system.

Mae Gofal a Thrwsio Cymru wedi cael y drafodaeth hon. Yn hanesyddol, tan y rhaglen hon, mae cyllid GIG wedi bod ar lefel leol, nid ar lefel LIC. Mae Trwsio a Gofal yn awyddus i gael yn trafodaethau hyn gyda BPRhGC.

Nododd RS mai'r arferion hyn yw union ffocws gofal a chefnogaeth yn y cartref, trawsnewid cymunedol; nododd RS y gwaith effeithiol sydd eisoes yn digwydd rhwng Gofal a Thrwsio a Thimau Adnoddau Cymunedol yn Wrecsam. Gofynnodd

RS a oes rhywbeth arall i'w gael o'r prosiect hwn. A oes rhagor o bobl ag arnynt angen y gefnogaeth hon?

Dyweddodd LC bod lle i'r prosiect hwn dyfu, yn amodol ar gyllid –mae'r galw yno. e.e. gallai weithio mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn ogystal ag mewn lolfeydd rhyddhau. Mae Gofal a Thrwsio yn edrych ar darddiad yr atgyfeiriadau.

Ategodd y CyngBF'r pryderon ynghlch natur rhaglenni 'peilot' ac phwysleisiodd eto bwysigrwydd sicrhau cyswllt â'r TAC

Dyweddodd ChW y bu trafodaeth yn Wreccsam ynghylch pwy ddylai fod yn eistedd o amgylch y bwrdd yn trafod cynllunio ar gyfer y gaeaf a thu hwnt, pwy yw'r partneriaid allweddol, sut allwn ni ddysgu o'r rhaglenni peilot.

Nododd DW bod BRC yn gweithio ar brosiect y mae'n debygol y bydd yn rhaid ei dendro yn y dyfodol, sy'n ei roi mewn perygl.

Dyweddodd BEJ bod angen edrych ar hyn o fewn y system ehangach a gweithio i rwystro damweiniau/anafiadau ac ati rhag digwydd h.y. gwiriadau dogelwch yn y cartref.

Soniodd KR bod gweithwyr y gwasanaeth tân yn cynnal gwiriadau mewn cartrefi bob dydd a gofynnodd sut y mae atgyfeiriadau'n gweithio, ac a yw'r gweithwyr achos wedi'u lleoli yn yr ysbytai. Dywedodd KR hefyd bod angen i ni sicrhau nad oes un 'pwynt methiant' h.y. bod angen datblygu amrywiaeth o lwybrau atgyfeirio

Mae Trwsio a Gofal yn gweithio gyda Choleg Brenhinol y Therapyddion Galwedgaethol, mae gan weithwyr achos gymwysterau BTeC ac maent yn cael eu monitro a'u mentora gan Therapyddion Galwedigaethol.

Dyweddodd EH mai rhan o waith WAST yw peidio cludo pobl i ysbytai. Mae llwybrau atgyfeirio o leoliadau heblaw ysbytai yr un mor bwysig. Mae cyfle i edrych ar y llwybr cyfan.

Nododd JLe bod y prosiect yn cynrychioli synnwyr cyffredin a gofynnodd sut y caiff Gofalwyr eu cynnwys? Dywedodd LC ei fod yn gweithio gyda gwasanaethau gofalwyr i godi ymwybyddiaeth.

Dyweddodd SLIW bod gwell cydweithio ar draws Cymru rhwng y gwasanaeth iechyd a sefydliadau tai. Mae Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn a Chonwy a Sir Ddinbych wedi'u cysylltu â Grŵp Cynefin ac mae hyn yn hyrwyddo cyfleoedd i brif ffrydio prosiectau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau craidd, ond mae angen blaenoriaethu'r galw ar wasanaethu.

## **6 Diweddariad ar y Strategaeth Gofalwyr**

Nododd TO y cyfraniad arwyddocaol a wneir gan Ofalwyr - ni allai'r system gofal ac iechyd ymdopi â'r galw hebddynt.

Cyflwynodd FfJ bapur yn rhoi diweddariad ar:

- Hunanasesiad Awdurdodau Lleol a BIPBC yn erbyn y safonau gwasanaeth a gytunwyd gyda Gofalwyr a chyflawniad amcanion y strategaeth.
- Gwariant a pherfformiad yn erbyn Cyllid Gofalwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 a 2019/20 (£213k y flwyddyn) sy'n canolbwyntio ar wella mynediad i ofal sylfaenol a chynllunio rhyddhad o'r ysbyty gyda gofalwyr.
- Gwariant cyffredinol ar wasanaethau ar gyfer Gofalwyr yng Ngogledd Cymru (dros £3.25m y flwyddyn, ar 80+ cytundeb gyda dros 30 sefydliad gofal a chymorth)
- Ymgysylltiad Gogledd Cymru gyda'r Grŵp Ymgynghorol Gweinidogol (GYG)

Mae gwaith y GYG yn bwysig o ran sicrhau y clywir lleisiau Gofalwyr.

Mae Atodiad 1 yr adroddiodyn rhoi manylion am gynnydd yn erbyn y strategaeth.

Atodiad 2 yw'r adroddiad diwedd blwyddyn ar wariant a gyflwynwyd i LIC.

Bu ymdrechion i adolygu a rhesymoli strwythur llywodraethu'r grwpiau sy'n canolbwyntio ar y strategaeth Gofalwyr a darpariaeth weithredol yng Ngogledd Cymru.

Mae ffocws ar sut y gallwn wella comisiynu gwasanaethau gofalwyr, gan gynnwys mwy o gyfleoedd i gyd-gomisiynu/contractio.

Gofynnodd TO i JLe a PW am eu meddyliau am y gwaith sydd ar y gweill.

Dyweddodd FfJ y rhagwelir y gofynnir i Ogledd Cymru rannu'r Strategaeth Gofalwyr gyda'r Grŵp Ymgynghorol Gweinidogol

Mae'r GYG wedi gofyn i BPRh gynghori pa 3 pheth yr ydym eu heisiau fel blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu ar gyfer Gofalwyr.

Cytunwyd y dylai BPRhGC fwydo'n ôl ar bwysigrwydd cyfranogiad gofalwyr ar y grwpiau hyn.

Dyweddodd JLe bod Grŵp Ymgysylltu ac Atebolrwydd yn gysylltiedig â'r GYG a bod yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr wedi'i ariannu i hwyluso'r grŵp hwn. Mae JLe wedi gofyn i swyddogion sy'n arwain ar bolisi faint o ofalwyr sy'n rhan o'r GYG a dywedwyd ei bod yn ymddangos bod LIC yn ffafrio model o gylchau consentrig gyda GYG a GYG Ymgynghori ac Atebolrwydd ar wahân; fodd bynnag yn y grŵp Ymgynghori GYG diweddar dim ond tri chynrychiolydd gofalwyr BPRh oedd yn bresennol.

Croesawodd PW y gwaith sydd ar y gweill i gefnogi gofalwyr pobl ag anghenion cymorth iechyd meddwl a soniodd am gyfarfod yr oedd wedi'i fynychu yng Nghaffi



Gofalwyr Uned Ablett yn ddiweddar a'r wybodaeth o safon uchel sydd ar gael yno. Unwaith eto fodd bynnag, ef oedd yr unig Ofalwr oedd yn bresennol.

Cadarnhaodd LS y cynnydd da ar waith yn y gwasanaethau adferiad sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi byw drwy'r fath brofiadau a gyda Gofalwyr.

Nododd DW y gwaith y mae Trwsio a Gofal a'r Groes Goch yn ei wneud i gysylltu â phobl yn yr ysbytai a gofynnodd pa mor aml y gofynnir i bobl os ydynt yn ofalwyr. Dywedodd FfJ fod hyn yn rhan o'r sgwrs 'beth sy'n bwysig'.

Nododd TO bod llawer o'r amcanion strategol yn 'oren' a dywedodd er bod cynnydd da i'w weld, y byddai'n hoffi gweld mwy o wybodaeth o ran yr hyn y mae angen ei wneud i droi meysydd yn wyrdd.

Trafododd y Bwrdd y gwahanol ddulliau adrodd, a yw'r mesur 'RAG' yn ddefnyddiol ac y gallai defnyddio'r seren lles fod yn fwy manteisiol. Trafodwyd hefyd y defnydd o astudiaethau achos (dywedodd MB bod templed astudiaethau achos wedi'i rannu gyda'r sefydliadau gofalwyr cysylltiedig a Grŵp Gofalwyr Gweithredol Gogledd Cymru).

Dywedodd JLe bod angen hefyd i ni gael gwybod am, a rhannu straeon am bethau nad ydynt wedi bod mor llwyddiannus a dysgu o'r rhain.

Dywedodd JGI bod angen i ni ystyried y defnydd o'r term 'gofalwr', mae pobl yn meddwl amdanynt eu hunain fel gwraig/cyfaill/teulu ac ati, byddai felly'n argymhell bod angen cymryd gofal gyda'r defnydd o'r term 'gofalwr'. Mae PW yn ategu hyn, peidio labelu fel 'Gofalwr' ond fel gŵr.

Roedd yr adroddiad yn gofyn bod BPRhGC yn rhoi adborth i Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru.

## **7 Proses Gynllunio'r Gaeaf 2019/20**

Wrth feddwl am gynllunio ar gyfer y gaeaf, anogodd TO bawb i gael brechiad rhag y ffliw os ydynt yn gymwys a gwahoddodd FfJ a BEJ i amlinellu'r broses gynllunio ar gyfer y gaeaf y cytunwyd arni yn dilyn llythyr a ddosbarthwyd am gyllid i alluogi darpariaeth dros y gaeaf 2019/20.

Mae dwy elfen o gyllid:

- £2.1m yn uniongyrchol i BIPBC (cyflwyno cynlluniau i LIC erbyn 23/10)
- £3.5m i'w oruchwylio gan BPRhGC (cyflwyno cynlluniau i LIC erbyn 15/11)

Dywedodd BEJ bod yn rhaid i BPRhGC fod â throsolwg o'r 2 elfen a bod gwaith ar y gweill ar draws Gogledd Cymru i ddynodi blaenoriaethau lleol wedi'u halinio â'r themâu a nodwyd yn y llythyr am gyllid.

Nododd BEJ y bydd blaenoriaethau y mae angen eu hariannu nad ydynt yn disgyn o fewn y meini prawf cyllido.

Mae peth pryder bod gan y ddwy elfen wahanol ddyddiadau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth.

Gofynnodd y CyngDM sut y bydd yr arian yn cael ei glustnodi?

Nododd BEJ bod taenlen benodol i'w chyflwyno fel rhan o'r cynllun, sy'n gysylltiedig a themâu/meini prawf LIC. Bydd dadansoddiad o fylchau lleol yn cael ei gynnal a thrafodaethau ynghylch pa sefydliad all helpu i gyflawni'r gofynion. Mae fformiwlâu ar gyfer dosrannu cyllid yng Ngogledd Cymru, a fydd yn sail dros flaenoriaethu'r dadansoddiad o anghenion lleol.

Gofynnodd CyngBF a oes posibilrwydd I gynllunio'n well yn y dyfodol?

Dyweddodd BEJ bod nawdd ar gael bob blwyddyn ac y gallem ofyn i'r TAC feddwl am hyn ymlaen llaw. Erbyn hyn nid dim ond yn y gaeaf y mae'r pwysau ond hefyd yn haf o ganlyniad i ymwelwyr (yn ôl y Daily Post daeth 30 miliwn o ymwelwyr i Ogledd Cymru eleni).

Soniodd y CyngLE am bwysau 'twristiaeth iechyd'.

Nododd JW nad dim ond ar GIG y mae'r pwysau ond hefyd ar gofal cymdeithasol h.y. problemau gofal annisgwyl yn y gwasanaethau plant. Mae'r ardal ganolog yn adeiladu ar y cynllun sydd yn ei le gydol y flwyddyn.

Yn ôl EH nid dim ond twristiaeth neu bwysau tymhorol sy'n effeithio ar hyn ond hefyd y symudiadau demograffig. Mae WAST yn gweld newid cadarnhaol mewn galw pan fo eira ar y llawr (sy'n cael ei weld fel newid mewn 'dewis' ymddygiadol yn hytrach na bod llai o bobl yn mynd yn sâl).

Nododd KR mai'r un 'cwsmeriaid' sydd gennym ni i gyd a bod angen gweithio ar y cyd ar negeseuon allweddol, ac anogodd BIPBC a'r Awdurdodau Lleol i beidio ag anghofio Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn y cynlluniau.

Nododd SB hefyd y gwaith sy'n digwydd gyda chartrefi gofal ac ati ar y risgiau perthnasol i adael yr Undeb Ewropeaidd (maes ychwanegol o risg).

Gofynnodd y CyngBF a fyddai'n bosibl i'r Cadeirydd ddweud wrth Lywodraeth Cymru ar ran BPRhGC bod hyn yn bwysau gydol y flwyddyn.

Cefnogodd BPRhGC y cynnig am un cynllun unigol ar gyfer Gogledd Cymru i gwmpasu'r £5.7m i gyd.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod ar 8/11 a byddai hyn yn gyfle i roi sêl bendith.

#### *Camau Gweithredu*

- BJE i roi diweddariad i TO ar drafodaethau am yr amserlen a chymeradwyo

## 8 Digwyddiadau LIC

Adborth o Weithdy Hunanasesiad LIC ar 02.10.2019

Yn absenoldeb unrhyw un arall a fynychodd, rhoddodd Bethan E Jones adborth ar y digwyddiad. Nod y gweithdy oedd edrych ar declyn hunanasesu a ddatblygwyd gan gyd-grŵp tasg a gorffen AGC a AIC i drafod a oedd hyn yn ffordd ddefnyddiol o gefnogi'r cynnig am archwiliad.

Roedd yr ymdriniaeth yn seiliedig ar fatrics aeddfedrwydd, ond nid oedd y mynychwyr yn sicr ai pwrpas hyn oedd profi grym Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ynteu gwaith partneriaeth ei hun o fewn y rhanbarth.

Bydd y gwaith yn dod i ben yn 2020 ar gyfer gweithrediad o 2021/2. Yr argymhellion oedd:

- Bod angen eglurder o ran yr hyn sy'n cael ei archwilio
- Bod matrices aeddfedrwydd yn ddefnyddiol
- Y byddai adolygiad gan gymheiriaid hefyd yn fethodoleg gadarnhaol

Ddigwyddiad Dysgu BPRh LIC - 5.12.2019

Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r newid yn y dyddiad o 28.11.2019. Cytunwyd ar y mynychwyr yn y cyfarfod diwethaf, fodd bynnag mae angen ystyried hyn eto oherwydd y dyddiad newydd.

Nododd BEJ bod costau teithio cyson i Gaerdydd / Gogledd Cymru yn achosi pwysau ariannol ar adeg pan fo BIPBC yn ceisio lleihau gwariant diangen, a hoffai archwilio cyfleoedd am fideo gynadledda.

Ategwyd y pwynt hwn gan JLe a DW, ac yn ychwanegol dywedodd JL nad oes ganddi hi, EJ, JG na PW sefydliadau sy'n gwneud y trefniadau drostynt a'u bod yn mynychu'r fath ddigwyddiadau yn eu hamser eu hunain.

Nododd JGI bod argyfwng newid hinsawdd wedi'i ddatgan ac awgrymodd y gallai LIC wneud defnydd o'r cyfleusterau yn eu swyddfa yng Nghyffordd Llandudno.

Dywedodd Gatrín Hilkes y byddai angen cyfieithydd ym mhob lleoliad.

*Camau Gweithredu*

- Gofynnodd TO i'r rhai hynny oedd wedi rhoi eu henwau i gadarnhau gydag RW a ydynt yn dal i allu mynychu ac i eraill ddweud os oes ganddynt ddiddordeb yn un o'r 8-10 lle sydd ar gael i BPRhGC.

- TO a BEJ i weld a ellid gwneud trefniadau amgen ar gyfer y digwyddiad hwn neu rai'r dyfodol yng ngoleuni'r ffaith y gallai'r tywydd fod yn anffafriol

## 9 Cymunedau 'Do It'

Ymunodd Tom McKay, gwirfoddolwr a chyd-hyfforddwr yn Flintshire DO-IT â Mark John Williams (MJW), Cyd-Gyfarwyddwr DO-IT a swyddog prosiect ar Dîm y Rhaglen Trawsnewid AD.

Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau BPRhGC i gyflwyno eu hunain. Cyflwynodd Tom ei hun a dywedodd wrth y Bwrdd ei fod yn gobeithio cyn bo hir gwirfoddoli gydag AVOW mewn swydd farchnata.

Dechreuodd Do-It fel menter gyd-gynhyrchu ac mae'n gysylltiedig â Datblygiad Cymunedol Seiliedig ar Asedau. Dywedodd MJW nad yw'r ymdriniaethau hyn yn aml iawn yn ddim mwy na jargon, ond yn Sir y Fflint fe wnaeth grŵp o unigolion gytuno i fynd ati a'i 'wneud o'. Mae'r prosiect wedi'i leoli yn ardal yr Wyddgrug ond mae'n ehangu i weithio ar draws Gogledd Cymru.

Yn 2017, daeth Flintshire DO-IT yn gwmni a chydweithrediaeth Buddiant Cymunedol – nid oes ganddynt unrhyw adnoddau y telir amdanynt: mae'r holl aelodau'n wirfoddolwr. Mae'r prosiectau'n gynhwysol (unrhyw oedran a gallu) ac yn cynnwys:

- prosiect sinema cymunedol ('watch-it')
- cyfeillion gig ('gig-it')
- grŵp cerddoriaeth ('rock-it')
- cylch cefnogaeth ('circle-it')
- ymgyrch ar gynyddu hygyrchedd toiledau cymunedol gan cynnwys cyfleusterau newid ar gyfer oedolion ('change-it')
- boreau coffi cymunedol ('brew-it')
- cyfleodd detio ('love-it')
- cyfleodd teithio cymunedol ('thumb-it')
- prosiect eiriolaeth, creu arweinyddiaeth gymunedol ('voice-it')
- prosiect arweinyddiaeth / hyfforddi cymunedol, sydd yn elfen cynyrchu incwm posibl o'r prosiect ('inspire')

Mae'r prosiect yn defnyddio credydau amser. Mae Theatr Clwyd, Freedom leisure wedi eu cynnwys fel partneriaid credydau amser.

Mae gwerthoedd y sefydliad yn seiliedig ar wir gydgynhyrchiad (yn hytrach nag ymgynghori) rhwng noddwyr, cefnogwyr/darparwyr a'r bobl sy'n manteisio ar y gwasanaethau.

I gloi, mae MJW yn teimlo bod gwir gydgynhyrchiad yn creu atebion gwirioneddol gynaliadwy i leddfu'r pwysau ar y gwasanaethau statudol gyda'r ffocws yn symud o:

Be' sy'n bod >>> be' sy'n gryf

Annibyniaeth >>> rhyngddibyniaeth (perthnasoedd)

Cystadleuaeth >>> cydgynhyrchiant

Roedd TO yn cydnabod rôl DW o ran dod â'r prosiect hwn i sylw'r Bwrdd fel enghraifft o wella gwerth cymdeithasol.

Dyweddodd DW ei fod wedi'i synnu cymaint a gyflawnwyd gyda chyn lleied.

Diolchodd TO i MJW a TMK am eu cyflwyniad.

## 10 Unrhyw Fater Arall

Tynnodd Shan Lloyd Williams (SLW) sylw'r cyfarfod at ddigwyddiad a gynhaliwyd yr wythnos honno o'r enw 'Social Value – what's the point?'

Dyweddodd SLW bod MB wedi rhoi cyflwyniad ar waith Grŵp Llywio'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol a'i bod wedi rhannu diagram yn dangos strwythur llywodraethu BPRhGC – yn rhoi manylion ar sut y mae Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru yn adrodd yn ôl i BPRhGC. Nododd SLW nad oedd gan y Grŵp Llywio Gadeirydd/cyd-gadeiryddion a'i fod o bosibl angen cyfeiriad gan y Bwrdd

Gwahoddodd TO sylwadau gan grychiolwyr y trydydd sector ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Dyweddodd DW yr hoffai ymwneud mwy â'r ochr Gwerth Cymdeithasol ond bod angen dod o hyd i wirfoddolwyr ar draws y sector i rannu'r rolau a'r cyfrifoldebau. Roedd LC a SW yn cytuno â hyn.

Cyhoeddodd SAC adolygiad o BGCau yr wythnos hon, cynigiodd EH y dylid edrych ar hyn yng nghyfarfod y NWRPB yn y dyfodol i weld a oes gwersi wedi'u dysgu.

Eitemau er gwybodaeth

Llythyr LIC: rhyddhad cyfalaf ICF 2018/19

'Cymru Iachach' – Hyfforddiant Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau

Digwyddiad WIHSC : Dydd Mawrth 22 Hydref 2019 @ Clwb Pêl-droed Wrecsam

Ydi'r Ddeddf yn cael effaith?

Roedd taflen wybodaeth am y digwyddiad wedi'i chynnwys ym mhecyn y cyfarfod yn rhoi wybodaeth am gyfleoedd i ddysgu mwy am y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a rhannu wybodaeth ynghylch yr effaith ar unigolion

*Camau Gweithredu*

- Cynigiodd TO bod BJE, MB, TO a Shelley Davies yn cyfarfod i weld sut y gellir hyrwyddo'r gweithgaredd hwn.